Cytundeb Arlwyo Caffi'r Oriel

A wnewch chi ddarllen ein Cytundeb Arlwyo a'i drafod gyda'r Rheolwr Arlwyo cyn arwyddo'r cytundeb hwn.

Gwarant Nifer Y Mynychwyr

Am grwpiau llai na 25: Bydd rhaid i'r nifer terfynol ein cyrraedd tri diwrnod gwaith llawn cyn yr achlysur. Y rhif hwn yw'r nifer gwarantedig o fynychwyr ac ni fydd yn bosibl i leihau'r nifer hwn. Bydd angen cadarnhad am ychwanegiadau i'r nifer sy'n fwy na 10%.

Am grwpiau mwy na 25: Bydd rhaid i'r nifer terfynol ein cyrraedd saith diwrnod gwaith cyn achlysur. Y rhif hwn fydd y nifer gwarantedig wrth amcangyfri'r bil. Os bydd nifer mynychwyr yr achlysur yn llai na 80% o'r nifer gwarantedig, bydd cyfanswm y bil yn 95% o'r nifer gwarantedig. Os bydd nifer y mynychwyr 10% yn uwch na'r nifer gwarantedig, gwnawn ein gorau glas i'ch boddhau, ond ni allwn warantu y bydd yr eitemau a archebwyd yn wreiddiol ar gael; byddwn yn cynnig dewisiadau eraill.

Archebion Hwyr

Rydym yn eich annog i wneud eich archeb cyn gynted ag y bo modd. Mae angen o leiaf bythefnos i baratoi ar gyfer rhai prydau o fwyd. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod archebion sy'n dod i law yn hwyr neu sydd am fwy o bobl nag y gallwn eu harlwyo. Ar gyfer priodasau rydym yn eich annog i roi eich anghenion arlwyo i ni o leiaf chwe wythnos cyn yr achlysur. Wrth gwrs, fe wnawn ein gorau glas i arlwyo archebion hwyr.

Costau Canslo*

Ni fydd unrhyw gost os daw canslad i law saith diwrnod neu'n fwy cyn yr achlysur. Bydd siars o 80% o'r bil ar gansladau a ddaw i law chwe diwrnod neu'n llai cyn yr achlysur.

Codir 50% o'r bil am gansladau 30-59 diwrnod cyn yr achlysur.

Codir 100% o'r bil am gansladau 29 diwrnod neu'n llai cyn yr achlysur.

***Gwleddai Priodasol**

Codir 30% o'r bil am gansladau 60 i 90 niwrnod cyn yr achlysur.

Codir 50% o'r bil am gansladau 30-59 niwrnod cyn yr achlysur.

Codir 100% o'r bil am gansladau 29 niwrnod neu'n llai cyn yr achlysur.

Talu

Derbynnir taliadau trwy arian parod neu sieciau yn daladwy i "Caffi'r Oriel". Ychwanegir 17.5% TAW ar bob eitem wedi'i goginio. *Gwleddai Priodasol: bydd angen talu 75% o'r costau arlwyo 30 niwrnod cyn yr achlysur a'r 25% arall i'w dalu 14 niwrnod cyn dyddiad y briodas.

Blodau/Cyfarpar

Rydym yn cadw'r hawl i godi tâl ar flodau sy'n mynd ar goll ac ar gyfarpar sy'n cael ei ddifrodi neu sy'n mynd ar goll oherwydd gweithrediadau unigolion sy'n mynychu'r achlysur.

Bwydydd A Diodydd Heb Eu Defnyddio

Bydd unrhyw fwyd a diod sy'n weddill yn perthyn i'r adran arlwyo.

Bwydydd A Diodydd

Dim ond ein hadran arlwyo fydd yn darparu bwyd a diodydd i achlysuron. Trafodwch unrhyw anghenion arbennig gyda'r Rheolwr Arlwyo.

Alcohol

Rydym yn cadw'r hawl i wrthod gwasanaeth mewn unrhyw achlysur. Rydym yn cadw'r hawl i gau'r bar.

Archeb Arlwyo

Darllenwch eich archeb arlwyo os gwelwch yn dda. Cysylltwch â'r Rheolwr Arlwyo ar 01758 740763 i wneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau. Dychwelwch gopi wedi ei arwyddo i'r Rheolwr Arlwyo drwy ffacs, post neu e-bost.

Cytundeb Arlwyo

Mae archeb arlwyo yn ddilys hyd at un flwyddyn galendr. Er mwyn i'r cytundeb fod yn ddilys, mae'n orfodol i un copi, wedi ei arwyddo, gael ei gadw ar ffeil yn ein swyddfa.

Y Digwyddiad:	.....		
Dyddiad y Digwyddiad:	.....	Amser y Digwyddiad:	.....
Arwyddwyd gan y Cwsmer	.....	Dyddiad	.....
Arwyddwyd gan y Rheolwr Arlwyo	.....	Dyddiad	.....

Caffi'r Oriel
Oriel Plas Glyn-y-Weddw
Llanbedrog
Pwllheli
Gwynedd
North Wales LL53 7TT

Perchnogion:
Ian and Lorna Roberts

e-Bost:
caffioriel@yahoo.co.uk

Ffôn: 01758 740763
Ffacs: 01758 740232

Rhif TAW Cofrestredig: **890 9337 84**